Llywodraeth Cymru
Welsh Government

System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion

Canllaw i rieni a gofalwyr

mae addysg
yn dechrau
yn y cartref
education
begins
at home

Beth yw'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion?

Er mwyn gwella safon addysg yng Nghymru a chefnogi pob ysgol i barhau i wella, mae arnom angen ddarlun clir iawn o ba mor dda y mae ysgolion yn perfformio yn awr ac mae angen inni allu nodi beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Nod y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yw darparu strwythur clir i adolygu pa mor dda y mae ysgol yn perfformio. Mae'n rhoi ystyriaeth i ba mor dda y caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a lefel y gefnogaeth a'r her sydd ei hangen arni i berfformio'n well.

Mae'r system yn dangos pa ysgolion y mae arnynt angen y gefnogaeth a'r arweiniad mwyaf i wella. Mae hefyd yn dangos pa ysgolion sy'n perfformio'n dda ond a allai wneud hyd yn oed yn well a pha ysgolion sydd eisoes yn effeithiol iawn ac a allai helpu ysgolion eraill i berfformio'n well.

Caiff pob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd eu rhoi mewn un o bedwar categori lliw mewn perthynas â chefnogaeth. Bydd pob ysgol yn derbyn rhaglen gefnogaeth wedi'i theilwra ar sail y categorïau hyn.

Nid labelu ysgolion na chreu tablau cynghrair yw nod y system. Ei hamcan yn hytrach yw helpu ysgolion i nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu cynnydd a'u lefelau cyflawni, a pha feysydd i ganolbwyntio arnynt er mwyn datblygu.

Hoffem annog pob rhiant a gofalwr i ddangos diddordeb brwd ym mherfformiad a chynnydd ysgolion eu plant a chefnogi'r ysgolion hyn wrth iddynt wella. Beth bynnag y bo categori ysgol eich plentyn, bydd y system hon yn sicrhau y bydd yn derbyn y cymorth, y gefnogaeth a'r arweiniad sydd eu hangen arni i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer ei holl ddysgwyr.

Ateb eich cwestiynau

Pam y mae angen system gategoreiddio?

Mae'r system gategoreiddio'n rhoi darlun clir a theg o ba mor dda y mae ysgol eich plentyn yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae hefyd yn helpu i nodi'r ysgolion y mae angen y cymorth, y gefnogaeth a'r arweiniad mwyaf arnynt er mwyn gwella.

Mae'r system wedi'i datblygu ar y cyd gan gonsortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Ei phrif swyddogaeth yw nodi'r ysgolion hynny, ledled Cymru, y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt. Bydd ysgolion yn derbyn rhaglen gefnogaeth wedi'i theilwra ar sail lliw'r categori cefnogaeth.

Mae'r system yn seiliedig ar dri cham syml. Nid ffigurau yw'r unig ystyriaeth. Mae hefyd yn ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth a'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion.

Beth yw'r broses dri cham a sut mae'n gweithio?

Cam un

Dangosyddion deilliannau

Hyd at 2017, roedd Llywodraeth Cymru yn defnyddio set benodol o wybodaeth (fel canlyniadau TGAU a gwybodaeth ar bresenoldeb) i ddadansoddi perfformiad ysgolion a'u rhoi mewn un o bedwar grŵp safonau. Ers 2017, nid yw Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi grŵp safonau ar gyfer ysgolion. Yn hytrach, mae ysgolion yn defnyddio set ehangach o wybodaeth perfformiad i werthuso sut maent yn gwneud, ac mae hyn yn ystyried eu cyd-destun lleol. Mae hyn yn fan cychwyn ar gyfer trafodaethau gyda chynghorydd herio eu consortiwm rhanbarthol am eu perfformiad a'u meysydd ar gyfer gwella.

Cafodd y newid hwn ei wneud yn sgil ein gwaith i ddiwygio atebolrwydd yn ein system addysg a sicrhau bod ysgolion, a'u dysgwyr, yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir i'w helpu i gyflawni eu potensial yn llawn.

Cam dau

Capasiti i wella

Mae cynghorwyr herio'r consortia rhanbarthol yn gwerthuso capasiti'r ysgol i wella, gan ystyried tystiolaeth ynghylch y safonau a gyflawnwyd ac ansawdd yr arweinyddiaeth ynghyd â'r dysgu a'r addysgu. Maent yn defnyddio gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru i gynnal y gwerthusiad hwn a llywio trafodaethau â'r ysgol. Mae ysgolion yn cael eu rhoi mewn un o bedwar grŵp, A i D. Yr ysgolion yng ngrŵp A sy'n dangos y capasiti mwyaf i wella ynghyd â'r gallu i gefnogi ysgolion eraill. Yr ysgolion yng ngrŵp D yw'r ysgolion y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt.

Cam tri

Categori cefnogaeth

Caiff y dyfarniadau yng ngham dau eu defnyddio i roi'r ysgol mewn categori lliw i ddangos y gefnogaeth sydd ei hangen arni. Bydd un ai yn y categori gwyrdd, melyn, oren neu goch.

Beth yw rôl cynghorydd herio?

Caiff cynghorwyr herio eu cyflogi gan y consortia rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion. Ceir pedwar consortia rhanbarthol ar draws Cymru (un o fewn pob rhanbarth) – GwE yng Ngogledd Cymru, ERW yng Nghanolbarth Cymru a'r Gorllewin, Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn Ne-ddwyrain Cymru, a CSC yng Nghanol De Cymru. Mae'r cynghorwyr herio hyn yn gyfrifol am helpu ysgolion i wella eu deilliannau ar gyfer dysgwyr ac maent yn cefnogi ac yn herio arweinwyr ysgolion i ddatblygu eu strategaethau ar gyfer arweinyddiaeth a dysgu ac addysgu. Caiff y gefnogaeth ar gyfer pob ysgol ei theilwra i fodloni ei hanghenion unigol.

Beth y mae pob categori cefnogaeth yn ei olygu?

Mae lliw gwahanol wedi'i roi i bob categori – gwyrdd, melyn, oren neu goch. Mae lliw'r categori'n dangos lefel y gymorth sydd ei hangen ar ysgol (mae angen y gymorth leiaf ar ysgolion yn y categori gwyrdd a'r gymorth fwyaf ar ysgolion yn y categori coch). Bydd pob ysgol yn derbyn rhaglen wedi'i theilwra o gymorth, her ac ymyrraeth ar sail y categori hwn.



Pa wybodaeth sy'n cael ei defnyddio i gategoreiddio ysgolion?

Caiff gwybodaeth amrywiol iawn ei defnyddio i gategoreiddio ysgolion. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut y caiff ysgol ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a'r lefel o gymorth a her sy'n angenrheidiol i'w gwella. Defnyddir hefyd wybodaeth ychwanegol fel asesiadau athrawon, presenoldeb a chanlyniadau arholiadau. Mae'r wybodaeth hon yn sail ar gyfer trafodaethau rhwng yr ysgolion a'u cynghorwyr herio.

Pam y mae ffigurau ynghylch presenoldeb yn bwysig?

Mae gwella presenoldeb yn flaenoriaeth genedlaethol. Ein bwriad yw gwella presenoldeb a thrwy wneud hynny wella cyflawniad dysgwyr. Os nad yw plant yn yr ysgol maent yn colli cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu. Rydym am wneud yn siŵr bod plant yn manteisio i'r eithaf ar eu haddysg drwy fod yn yr ysgol a chael y dechrau gorau posib i'w bywyd.

Pryd y caiff y categorïau cefnogaeth eu cyhoeddi?

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am gategori cefnogaeth pob ysgol ac yn ei chyflwyno i rieni a gofalwyr ar wefan Fy Ysgol Leol bob mis Ionawr yn **fyysgolleol.llyw.cymru**

Rwy'n bryderus ynghylch categori cefnogaeth ysgol fy mhlentyn. Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ysgol eich plentyn neu am ei chategori, dylai pennaeth neu gadeirydd llywodraethwyr yr ysgol allu eich helpu.

Ydy ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yn cael eu cynnwys?

Ydynt. Mae'r system categoreiddio yn canolbwyntio ar ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig. Caiff categori cefnogaeth ei roi i ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion o fewn pob awdurdod lleol.

A fydd y system hon yn disodli adroddiadau Estyn?

Na. Bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion. Gallwch chi weld adroddiadau Estyn ar wefan Estyn yn **www.estyn.llyw.cymru/** neu drwy ddolen o dudalen eich ysgol ar wefan Fy Ysgol Leol.

Gall eich pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr ateb unrhyw gwestiynau am eich ysgol.
Gallwch anfon unrhyw gwestiwn arall i
Education-BusinessPlanningGovernance@llyw.cymru

Facebook: **facebook.com/dechraucartref**
Twitter: **@dechraucartref**
#CategoreiddioYsgolion

Gwefan: **www.llyw.cymru/hysbysysgolionirieni**

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG38661 ISBN digidol 978-1-80038-060-8